
Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

National Centre for Social Research

# Model cymdeithasol o anabledd: adolygiad o fodelau anabledd a chwestiynau arolygon




Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall gan Lywodraeth Cymru

Gorffennaf 2025

# Cynnwys


Y prosiect hwn 3

Y model cymdeithasol o anabledd 4

Yr adroddiad hwn 5

Beth wnaethon ni 7

Beth ddysgon ni am fodelau o anabledd 10

Beth ddysgon ni o arolygon o'r DU a gwledydd eraill 14

Beth ddysgon ni 16

Beth fyddwn ni'n ei wneud 17

Rhagor o wybodaeth 18



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52660, ISBN digidol 978-1-80633-228-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Y prosiect hwn



Mae Llywodraeth Cymru eisiau newid y ffordd rydyn ni'n casglu gwybodaeth am bobl anabl.



Rydyn ni fel arfer yn holi pobl am fod yn anabl drwy ddefnyddio cwestiynau mewn arolygon. Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu defnyddio ers amser maith ac mae angen eu diweddaru.

Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd i'n helpu i ymateb i anghenion pobl anabl.



Dydy ein hen gwestiynau ddim yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Mae hyn yn golygu bod angen i ni greu a phrofi cwestiynau arolwg newydd sy'n gwneud hynny.

National Centre for Social Research

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ar y prosiect hwn.

# Y model cymdeithasol o anabledd



Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn ffordd o feddwl a siarad am bobl anabl.

Cafodd y model ei wneud gan bobl anabl ac mae'n dangos i'r byd sut i'w cynnwys.



Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn dweud nad yw person yn anabl oherwydd ei amhariad neu gyflwr iechyd.




Yn hytrach, mae'n cael ei anablu gan rwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach gwneud pethau.

Yr enw byr arno yw'r **'model cymdeithasol'**.

# Yr adroddiad hwn



Cyn i ni ddechrau gwneud unrhyw gwestiynau newydd, roedden ni eisiau gweld beth mae pobl eraill eisoes yn ei wybod.




Fe wnaethon ni hyn trwy ddarllen yr hyn y mae arbenigwyr wedi'i ysgrifennu o'r blaen. Yna fe wnaethon ni ysgrifennu popeth wnaethon ni ei ddysgu ar gyfer yr adroddiad hwn.

**Adolygiad llenyddiaeth** yw'r enw ar hyn.

Roedden ni eisiau gweld:



- beth yw'r gwahanol ffyrdd o feddwl am anabledd?

- pa bethau da a drwg mae arbenigwyr wedi'u dweud am y gwahanol ffyrdd o feddwl am anabledd?

- sut mae gwledydd eraill yn casglu data am bobl anabl?



- pa bethau sy'n bwysig i'w cael yn y cwestiynau newydd a beth ddylid ei adael allan?

Mae'r adroddiad hwn yn trafod beth wnaethon ni, a beth wnaethon ni ei ddysgu.

# Beth wnaethon ni

I ateb ein cwestiynau, fe edrychon ni mewn 2 le gwahanol:





1. Yn gyntaf, fe edrychon ni ar wefannau lle mae arbenigwyr yn cadw eu hadroddiadau i ddysgu am y gwahanol ffyrdd o feddwl am anabledd.

2. Yna, fe edrychon ni ar wefannau sy'n perthyn i lywodraethau eraill i weld pa gwestiynau sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol wledydd.



Roedd gormod o adroddiadau i ni allu darllen popeth, felly fe benderfynon ni edrych ar:

- adroddiadau oedd yn sôn am fodelau anabledd a holiaduron




- adroddiadau oedd yn 10 oed neu'n iau

- adroddiadau wedi'u hysgrifennu yn Saesneg




- adroddiadau o'r DU, UDA, Canada, Seland Newydd, Awstralia, ac Ewrop.




Gadawodd hyn 50 o adroddiadau i'w darllen – neu'r **sampl**.

Mae sampl yn rhoi syniad da i ni o'r hyn y mae pobl yn ei feddwl a'i wybod, heb i ni orfod darllen pob adroddiad unigol.



Mae'n arbed llawer o amser i ni ac yn ei gwneud hi'n haws i ni wneud ein gwaith.

Ond mae'n golygu nad ydyn ni'n darllen popeth, ac efallai byddwn ni'n colli rhywbeth pwysig.




Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach dweud pan fydd arbenigwyr yn anghytuno neu'n deall pethau mewn gwahanol ffyrdd.

# Beth ddysgon ni am fodelau o anabledd





**Model** yw sut rydyn ni'n meddwl ac yn siarad am rywbeth. Mae yna 3 prif ffordd o feddwl am bobl anabl:




- y model meddygol o anabledd




- y model cymdeithasol o anabledd




- y model bioseicogymdeithasol o anabledd.



Mae'r **model meddygol o anabledd** yn dweud mai amhariad neu gyflyrau iechyd person sy'n achosi iddo fod yn anabl.




Mae wedi cael ei ddefnyddio mewn llawer o arolygon oherwydd bod ganddo atebion clir ac yn dangos i ni pa newidiadau meddygol allai helpu pobl.



Ond dydy rhai pobl ddim yn ei hoffi ac maen nhw'n teimlo ei fod yn dweud bod angen trwsio pobl anabl.

Gall hefyd golli rhai pobl sydd ddim yn galw eu hunain yn anabl, fel pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL).



Mae'r **model cymdeithasol o anabledd** yn dweud nad yw person yn anabl o ganlyniad i amhariad neu gyflwr iechyd. Yn hytrach, mae'n cael ei anablu gan rwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach gwneud pethau.

Mae llawer o bobl yn hoffi'r model cymdeithasol oherwydd ei fod yn dweud bod angen trwsio rhwystrau, nid pobl anabl eu hunain.



Mae'n canolbwyntio ar weld beth yw'r rhwystrau hyn a deall sut gallwn ni gael gwared arnyn nhw.




Mae pobl wedi dweud bod hyn yn helpu pawb i fod yn gyfartal. Gall roi pobl anabl yn gyfrifol am eu bywydau eu hunain a'u helpu i gael eu cynnwys yn y byd.



Ond mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn dal i feddwl am sut mae cael amhariad yn gallu effeithio ar fywydau bob dydd pobl, hyd yn oed os yw'r rhwystrau hyn wedi'u trwsio.



Mae'r model **bioseicogymdeithasol o anabledd** yn ceisio cymysgu'r model meddygol a'r model cymdeithasol. Mae'n dweud y dylen ni edrych ar bopeth am berson a'i fywyd.



Mae wedi cael ei ddefnyddio mewn rhai arolygon i ofyn am amhariadau pobl, y byd o'u cwmpas, eu meddyliau a'u teimladau, a sut maen nhw i gyd yn cymysgu gyda'i gilydd.

Mae rhai pobl yn dweud ei bod yn dda defnyddio'r model bioseicogymdeithasol oherwydd gallai ein helpu i ddeall yr holl wahanol bethau a allai wneud person yn anabl.



Dryslyd

Ond mae pobl eraill wedi dweud ei fod yn ceisio gwneud gormod ac yn mynd yn rhy gymhleth i'w ddefnyddio.



Maen nhw hefyd wedi dweud y gall wneud arolygon yn rhy hir a'i gwneud hi'n anoddach dod o hyd i'r wybodaeth bwysicaf.

# Beth ddysgon ni o arolygon o'r DU a gwledydd eraill



Er mwyn gweld sut mae llywodraethau eraill wedi casglu gwybodaeth am bobl anabl, fe edrychon ni ar arolygon sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol wledydd.

Fe welson ni fod y rhan fwyaf o'r arolygon hyn yn defnyddio'r model meddygol neu'r model bioseicogymdeithasol o anabledd.




Doedd llawer o'r arolygon ddim yn cynnwys cwestiynau am y rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach i bobl anabl wneud pethau.

Doedd llawer o'r arolygon hyn ddim yn cynnwys cwestiynau am:



- fod yn niwrowahanol
- bod â chyflwr iechyd meddwl
- bod ag amhariadau sy'n gallu gwella neu waethygu
- pobl â mwy nag un amhariad.




Roedd llawer o arolygon yn gofyn cwestiynau gydag ateb "Ie" (neu Ydw/Ydy) neu "Na" (neu Nac ydw/Nac ydy) yn unig. Doedd y cwestiynau hyn ddim yn gweithio'n dda i bobl oedd eisiau ysgrifennu eu hatebion eu hunain.

Roedd rhai o'r arolygon yn hir a rhai yn fyr. Roedd hyn yn golygu y gallen nhw gael gwahanol fathau o wybodaeth am bobl anabl.



Doedd dim llawer o arolygon oedd yn cynnwys cwestiynau ar gyfer plant a phobl ifanc yn unig. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid i rieni ateb cwestiynau dros eu plant.

# Beth ddysgon ni



Mae'r 3 model o anabledd y buon ni'n edrych arnyn nhw i gyd yn meddwl ac yn siarad am bobl anabl mewn gwahanol ffyrdd.

Pan mae'r modelau'n cael eu defnyddio ar gyfer arolygon, mae yna bethau da a phethau drwg ymhob un.

**Meddygol Model**

**neu**

**Bioseicogymdeithasol Model**

Roedd pob un o'r arolygon y buon ni'n edrych arnyn nhw naill ai'n defnyddio'r model meddygol neu'r model bioseicogymdeithasol o anabledd.

**Cymdeithasol Model**

Doedd dim un o'r arolygon yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Roedd hyn yn golygu nad oedd gan y rhan fwyaf ohonyn nhw gwestiynau am rwystrau.




Fe allwn ni ddysgu o'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac sydd heb weithio'n dda mewn arolygon eraill, er mwyn ceisio gwneud ein cwestiynau newydd hyd yn oed yn well.

# Beth fyddwn ni'n ei wneud

Gallwn ddefnyddio'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu pan fyddwn yn gwneud ein cwestiynau newydd trwy:



- ofalu ein bod yn defnyddio'r model cymdeithasol yn iawn pan fyddwn ni'n meddwl am anabledd a phobl anabl
- defnyddio'r geiriau cywir a gwneud yn siŵr bod modd cynnwys pawb



- gofyn am y rhwystrau sy'n gwneud pethau'n anoddach i bobl anabl
- ei gwneud hi'n haws i bobl ateb cwestiynau yn y ffordd maen nhw eisiau.

# Rhagor o wybodaeth




Dyma fersiwn hawdd ei deall o adroddiad Llywodraeth Cymru.

Gallwch ddarllen y fersiwn wreiddiol yma: www.llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd-adolygiad-o-fodelau-anabledd-chwestiynau-arolwg

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn, gallwch:



- Edrych ar ein gwefan: www.llyw.cymru/yr-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd




- E-bostio ni: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru